



Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

8 Hydref 2021

Annwyl Mr George

Y gweithlu iechyd a gofal

Diolch ichi am y cyfle i gyfrannu tystiolaeth i'ch gwaith ar y gweithlu iechyd a gofal. Amcan y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Bydd ein sylwadau yn canolbwyntio yn benodol felly ar bwysigrwydd datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu iechyd a gofal fel y bo siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru yn derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wrth gwrs yn deall bod heriau mawr yn wynebu gwasanaethau iechyd a gofal Cymru ar hyn o bryd a bod yr heriau hynny yn ymwneud â recriwtio yn arbennig. Fodd bynnag mae darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o safbwynt darparu gofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar anghenion unigolion ac yn cael ei ddarparu'n ddi-dor o gwmpas yr unigolyn. I nifer sydd angen gofal yn y Gymraeg oherwydd natur eu salwch ac i nifer y mae'n well ganddynt dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg mae gofal o ansawdd yn golygu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym felly yn falch iawn y byddwch chi'n cynnal sesiwn dystiolaeth lafar gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn ystod tymor yr hydref i ystyried Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal. Isod ymatebwn i'r cwestiynau yr ydych yn eu holi.

1. Y cynlluniau ar gyfer gweithredu Cymru iachach: ein strategaeth gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020), gan gynnwys y cynnydd a wnaed hyd yma ac a yw'r gwaith o gyflawni ar y trywydd iawn ar gyfer 2030.

Ymatebodd y Comisiynydd i'r ymgynghoriad ar fersiwn drafft y Strategaeth gan dynnu sylw at y ffaith mai un cyfeiriad yn unig oedd at yr iaith Gymraeg ynddo ac yn cynnig dulliau o'i gryfhau. Roeddem yn falch felly fod y Strategaeth derfynol yn dangos gwerthfawrogiad o'r angen i ddarparu gofal yn y Gymraeg a'i bod yn cynnwys llawer mwy o gamau gweithredu sy'n berthnasol i'r Gymraeg a bod ymrwymiad ynddi i godi sgiliau Cymraeg y gweithlu iechyd a gofal. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu penodol i:

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

- Gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod addysg yn diwallu anghenion y system iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cynnwys rhaglenni a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg. (Cam gweithredu 18)
- Gweithio gyda darparwyr addysg i gefnogi'r gweithlu i ddatblygu a/neu wella sgiliau iaith Gymraeg. (Cam gweithredu 19)
- Datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. *Fe'i defnyddir i weithredu'r Strategaeth Sgiliau iaith Gymraeg a llywio ein cyflenwad gweithlu.* (Cam gweithredu 30)

Fodd bynnag, fel yn achos pob strategaeth, nid y geiriau sy'n bwysig ond eu gweithredu. Mae staff y Comisiynydd yn aelodau o Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal. Cafodd y Bwrdd Partneriaeth gyfle i rannu ei sylwadau ag AaGIC a GCC yn ystod y broses o lunio'r strategaeth. Cyhoeddwyd y Strategaeth derfynol ym mis Hydref 2020. Roedd yn nodi'r bwriad o ddatblygu cyfres o gynlluniau gweithredu i fwrw ymlaen â chamau penodol i wireddu'r uchelgais a chyflawni'r strategaeth. Ddechrau Mawrth 2020 cynhaliwyd gweithdy er mwyn i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth gyfrannu at gynnwys y cynlluniau gweithredu hyn. Ers cyhoeddi'r Strategaeth deallwn fod AaGIC a GCC wedi bod yn canolbwyntio ar weithredu rhai camau gweithredu o'r Strategaeth ar fyrder yn sgil argyfwng Covid-19. Buasem fodd bynnag, yn awyddus i wybod rhagor am y cynlluniau gweithredu a sut y gallwn ni fel Comisiynydd a rhanddeiliad eraill gyfrannu at sicrhau y byddant yn arwain at gynyddu gallu'r gweithlu iechyd a gofal i ddarparu gofal yn y Gymraeg. Mae camau gweithredu pendant ac adeiladol o safbwynt y Gymraeg yn y Strategaeth, ac mae peth gwaith wedi'i wneud eisoes mewn perthynas â chamau 18 ac 19 (fel yr amlinellwn isod yn 3). Fodd bynnag, rydym yn awyddus iawn i weld cynlluniau gwaith mwy pendant i wireddu gweledigaeth y Strategaeth o safbwynt y Gymraeg. Rhan o hynny yw sicrhau y bydd y Gymraeg wedi'i hintegreiddio'n llawn i holl gamau gweithredu eraill y Strategaeth nid yn unig y rhai sy'n uniongyrchol yn ymwneud â'r Gymraeg. Dim ond o wybod rhagor am y cynlluniau hyn y gallwn farnu a yw'r Strategaeth ar y trywydd iawn i gyflawni erbyn 2030 o safbwynt gallu'r gweithlu i ddarparu gofal yn y Gymraeg.

2. Aliniad y strategaeth a'r modd y caiff ei gweithredu â blaenoriaethau a chamau gweithredu eraill, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2026, a Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018).

Nid yw'n glir o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-26 pa amcanion sy'n deillio'n uniongyrchol o Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal. Efallai bod hynny oherwydd bod cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu nad ydym yn ymwybodol ohonynt (gweler uchod) ac sydd wedi esgor ar rai o fwriadau'r Rhaglen Lywodraethu. Nid ydym ychwaith yn gorff sy'n gweithredu'n benodol yn y maes iechyd felly mae'n bosibl bod nifer o'r amcanion yn y rhaglen lywodraethu wedi'u trafod a'u cytuno o fewn y sector iechyd yn benodol ac ni fuasem yn ymwybodol ohonynt.

Credwn fod y Strategaeth yn cynnwys nifer o gamau gweithredu addas sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau *Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal*¹. Ddiwedd Awst 2021 cyhoeddwyd

¹ [More than just words \(gov.wales\)](#) (2016-19, Saesneg yn unig) [Mwy na geiriau Cynllun Gweithredu 2019–2020 \(llyw.cymru\)](#)

gwerthusiad o weithrediad *Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol y Gymraeg mewn iechyd a gofal*². Mae'r gwerthusiad yn cynnwys nifer o ganfyddiadau ac argymhellion sy'n berthnasol i weithrediad Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal. Mae angen sicrhau y bydd gwaith a chynlluniau i weithredu'r Strategaeth yn llawn ymwybodol o'r casgliadau a'r argymhellion hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu cynllun gwaith pum mlynedd ar gyfer *Mwy na geiriau* i'r dyfodol. Rhaid sicrhau bod y cynllun gwaith pum mlynedd hwnnw yn alinio'n agos â chynlluniau gweithredu Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal. Mae bwriad y Llywodraeth yn hyn o beth yn cyd-fynd â Rhaglen Waith 2021-26 Strategaeth Cymraeg 2050³ sy'n nodi'r bwriad i 'ymateb i werthusiad 'Mwy na Geiriau' a datblygu rhaglen waith ar gyfer iechyd a gofal i gynyddu defnydd o'r Gymraeg a meithrin gallu i gynnig gwasanaethau Cymraeg' ac i 'ymateb i werthusiad 'Mwy na Geiriau' a datblygu rhaglen waith ar gyfer iechyd a gofal i gynyddu defnydd o'r Gymraeg a meithrin gallu i gynnig gwasanaethau Cymraeg' ac i 'gefnogi'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, llywodraeth leol a'r trydydd sector i adnabod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith eu gweithluoedd a chyda'r cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu, gan flaenoriaethu cynllunio'r gweithlu o safbwynt sgiliau iaith a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.' Mae cyswllt amlwg felly rhwng blaenoriaethau Cymraeg 2050 ac amcanion Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal ac mae angen sicrhau bod gweithrediad y ddau gynllun yn mynd law yn llaw â'i gilydd.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar fersiwn drafft y Strategaeth tynnom sylw at bwysigrwydd safonau'r Gymraeg o safbwynt cynllunio'r gweithlu. Er 2016 mae gofyn i awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg⁴ ac er 2019 mae gofyn i gyrff iechyd gydymffurfio â safonau⁵ yn ogystal. Pwysleisio yr angen i ystyried yn llawn sut y gall safonau gweithredu y mae gofyn i awdurdodau lleol a chyrrff iechyd fel ei gilydd eu gweithredu fwydo yn uniongyrchol i mewn i waith cynllunio'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol. Nodom yn ogystal y dylid integreiddio disgwyliadau'r safonau o safbwynt gofynion awdurdodau lleol o ran llesiant a'r gofynion sydd ar fyrddau iechyd o safbwynt gofal clinigol a gofal sylfaenol yn llawn i'r strategaeth.

Yn achos cyrrff iechyd ac awdurdodau lleol fel ei gilydd mae safonau gweithredu penodol ynghylch meithrin sgiliau Cymraeg y gweithlu drwy gynllunio a hyfforddi'r gweithlu. Mae gofyn er enghraifft iddynt asesu sgiliau eu gweithlu; rhoi cyfle i staff gael gwarsi Cymraeg a hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhai amgylchiadau; cyrsiau hyfforddi ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal, wrth asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg. Mae gofyn iddynt hefyd ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ogystal.

Yn achos awdurdodau lleol mae safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd i drafod llesiant unigolion yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ganfod a yw aelodau'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg mewn

² [Gwerthusiad o Mwy na geiriau ..., y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, 2016-19 \(llyw.cymru\)](#)

³ [Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/contents/made/welsh>

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/contents/made/welsh>

cyfarfodydd sy'n ymwneud â'u llesiant ac i ddarparu cyfieithu ar y pryd os nad oes modd eu cynnal yn Gymraeg (safonau 25-26A). Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd yn nodi i ba raddau y gallant gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg (safonau 110 a 110A). Mae gofyn iddynt hefyd nodi'r camau y bwriadant eu cymryd i gynyddu eu gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg ac amserlen ar gyfer gwneud hynny. Mae safonau 23-24 sy'n berthnasol i fyrddau iechyd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ganfod a yw cleifion mewnol yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Yn ogystal mae gofyn i gyrff iechyd gyhoeddi polisi ar ddarparu gwasanaeth gofal sylfaenol (safonau 78 a 78A). Mae'r safonau hyn yn tanlinellu'r angen am weithlu sydd â sgiliau yn y Gymraeg i ddarparu gofal yn y Gymraeg.

Rydym yn gweld fod lle amlwg i ystyried sut mae integreiddio gweithrediad y Strategaeth a gweithredu nifer o'r safonau uchod ac yn gweld sut y gall y naill atgyfnerthu gweithrediad y llall gan arwain at wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg. Buasem felly yn croesawu deall yn well pa ystyriaeth sydd wedi'i roi i hyn mewn cynlluniau i weithredu Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal. Mae cam gweithredu 30 Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal sef 'datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol' yn hanfodol yn hyn o beth. Fodd bynnag, nid ydym hyd yma yn ymwybodol o gynlluniau i ddatblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu

3. Y graddau y bydd strategaeth gweithlu AaGIC/GCC a gwaith ehangach ar gynllunio'r gweithlu a chomisiynu/darparu addysg a hyfforddiant yn sicrhau bod gennym weithlu iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gallu diwallu anghenion iechyd a gofal y boblogaeth, a chefnogi modelau gofal a ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg ddigidol a datblygu gwasanaethau Cymraeg.

Ar hyn o bryd nid ydym o'r farn bod modd mesur y graddau y bydd y strategaeth yn sicrhau bod gennym weithlu iechyd a gofal sy'n gallu diwallu anghenion iechyd a gofal siaradwyr Cymraeg. Mae hynny oherwydd nad yw'r graddau y mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu yn glir inni ar hyn o bryd. Er enghraifft, fel y nodom uchod nid ydym yn ymwybodol bod cynlluniau gweithredu wedi'u cyhoeddi ar gyfer y saith amcan felly ni allwn farnu a yw'r camau y bwriedir eu cymryd yn ddigonol. Er hynny, mae'n deg dweud bod rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd o safbwynt comisiynu/darparu addysg a hyfforddiant yn ddiweddar. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ehangu darparu cyrsiau iechyd a gofal trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn annog myfyrwyr i fanteisio arnynt.

Mae camau gweithredu clodwiw o safbwynt comisiynu/darparu addysg a hyfforddiant sydd â photensial mawr iddynt o safbwynt datblygu sgiliau gweithlu'r dyfodol yn Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal gan gynnwys cam gweithredu 18 ac 19. O safbwynt cam gweithredu 18 deallwn fod gofynion penodol mewn perthynas â'r Gymraeg gan AaGIC yn eu proses gaffael Addysg Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Mae hyn i'w groesawu wrth gwrs ac yn gam cadarnhaol iawn wrth edrych ar hyfforddi gweithlu'r dyfodol. Mae'r gofynion yn ymwneud â chynyddu cyfleoedd i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg; cynyddu cyfleoedd i ddysgu a chodi hyder yn y Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o ddarparu gofal yn y Gymraeg fel rhan o bob cwrs. Rhaid fodd bynnag sicrhau bod y disgwyliadau a wneir o ddarparwyr addysg yn cynyddu dros amser fel y bo'r ddarpariaeth Gymraeg yn cynyddu a bod rhagor o bobl yn gadael eu haddysg iechyd yn gallu darparu gofal yn y Gymraeg. Mae'n gadarnhaol yn ogystal y bydd BSc Nyrsio a BSc Nyrsio Iechyd Meddwl ar

gael ym Mhrifysgol Aberystwyth o 2022 ymlaen oherwydd y bydd o bosibl yn arwain at recriwtio rhagor o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yng ngorllewin Cymru. Yn yr un modd mae'n gadarnhaol bod cwrs meddygol yn cael ei gyflwyno ym Mhrifysgol Bangor ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd a bod cynlluniau i sefydlu ysgol feddygaeth lawn ym Mangor yn y dyfodol, ac y bydd cwrs therapi iaith a lleferydd newydd ym Mhrifysgol Glyndŵr o 2023 ymlaen. Bydd mynd â chysiau o'r math yma yn agosach at ddarparu fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn denu rhagor i ddilyn y cyrsiau hyn gobeithio.

Fodd bynnag, os na fydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu recriwtio i gyrsiau addysg yn y lle cyntaf, a hynny mewn modd bwriadol er mwyn cwrdd ag anghenion y gweithlu nid yw'n glir sut y bydd cynnydd sylweddol yng nghapasiti'r gweithlu i ddarparu gofal yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd nid yw'n glir inni a oes proses systematig mewn lle ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal ym mhob bwrdd ac awdurdod lleol i adnabod ym mha broffesiynau y mae bylchau mewn sgiliau yn y Gymraeg a beth yw maint y bwlch. Nid yw'n glir inni chwaith sut y mae gwybodaeth o'r fath am y bylchau mewn sgiliau Cymraeg mewn proffesiynau penodol yn cael ei throsglwyddo i AaGIC a GCC fel y bônt, yn achos AaGIC yn gallu gosod gofynion pendant ar ddarparwyr addysg i recriwtio siaradwyr Cymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg y proffesiynau hynny yn unol â cham gweithredu 18. Gwyddom fod targed yn bodoli ar gyfer recriwtio siaradwyr Cymraeg i gyrsiau therapi iaith a lleferydd oherwydd ei fod yn cael ei adnabod fel maes blaenoriaeth. Mae *Mwy na geiriau* er hynny yn adnabod nifer o feysydd blaenoriaeth eraill megis pobl hŷn, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl â dementia, a phlant a phobl ifanc. Credwn fod angen datblygu strategaethau penodol ar gyfer datblygu gweithlu'r sectorau hyn ar fyrder yn unol â cham gweithredu 7 y Strategaeth sef 'Adolygu a datblygu cynlluniau wedi'u targedu ar gyfer a) prinderau sylweddol mewn grwpiau proffesiynol a galwedigaethol a meysydd sy'n anodd recriwtio iddynt yn cynnwys meddygaeth, gofal cartref, gwaith cymdeithasol a nyrsio (yn gysylltiedig â gweithrediad 31) b) grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.'

Gwyddom er enghraifft fod peth arweiniad o safbwynt darparu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y GIG yn *Fframwaith cynllunio GIG Cymru 2019 i 2022*⁶ ar gyfer cynllunio. Er hynny, canfu gwerthusiad diweddar o gyflawniad *Mwy na geiriau* nad yw'r Gymraeg wedi'i hymgorffori yn glir yn y cynlluniau hyn, '....Ymddengys nad yw'r Gymraeg yn gyffredinol wedi'i hymgorffori'n glir yn y dogfennau hyn y tu hwnt i gwpl o baragraffau mewn adrannau annibynnol, sy'n aml yn cyfeirio at waith sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Nid yw cyfeiriadau at y Gymraeg o fewn y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a adolygir yn tueddu i fod â blaenoriaethau, canlyniadau, allbynnau na dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) penodol ynghlwm wrthynt. Prin y cyfeirir yn y dogfennau hyn at fanteision y Cynnig Rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Lle ceir cyfeiriad at y Gymraeg yn y cynlluniau hyn, mae'n tueddu i fod yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg (2011) a Safonau'r Gymraeg' (3.19).' Mae gan bob bwrdd iechyd strategaethau sgiliau dwyieithog yn ogystal ond mae'r gwerthusiad o *Mwy na geiriau* yn nodi nad ydynt yn cynnwys digon o fanylder er mwyn rhoi cynlluniau ar waith, 'Nododd rhai rhanddeiliaid, fodd bynnag, mewn llawer o achosion, fod strategaethau sgiliau dwyieithog a chynlluniau lleol eraill yn ymwneud â'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau yn cynnwys nodau uchelgeisiol sy'n ymwneud â'r Gymraeg ond nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys cynlluniau manwl sy'n ymwneud â sut y dylid rhoi'r dyheadau hyn ar waith. Nododd y rhanddeiliaid fod y diffyg manylion ymarferol yn debygol o fod wedi

⁶ [Fframwaith cynllunio GIG Cymru 2019 i 2022 | LLYW.CYMRU](#)

deillio, yn rhannol o leiaf, o'r symiau cymharol fach o ddata sydd ar gael yn ymwneud â sgiliau Cymraeg y gweithlu ac anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau' (5.4).

Mae'n glir felly o'r dyfyniadau uchod fod angen gwell dealltwriaeth o anghenion gofal y cyhoedd a sgiliau'r gweithlu er mwyn medru creu cynlluniau pendant i gynyddu gofal yn y Gymraeg mewn ffordd ystyrllon. Heb fod â dealltwriaeth fanwl o anghenion y system iechyd a gofal cymdeithasol o safbwynt sgiliau yn y Gymraeg y bwriedir i'r drefn addysg eu diwallu, bydd yn anodd iawn mesur llwyddiant y camau gweithredu hyn.

Mae cam gweithredu 19 y Strategaeth yn ymwneud â chefnogi'r gweithlu i ddatblygu a/neu wella sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn wrth gwrs yn hanfodol gan na fydd gwaith i gomisiynu addysg ayb yn dwyn ffrwyth am rai blynyddoedd. Gwyddom fod rhai prosiectau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu wedi'u cynnal cyn cyhoeddi'r Strategaeth yn sgil cynllun Cymraeg Gwaith a gynhelir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion. Mae prosiectau o'r fath wedi'u cynnal mewn rhai byrddau iechyd a gyda gweithwyr gofal mewn partneriaeth â GCC. Er hynny, mae'n glir erbyn hyn fod angen strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu sgiliau'r gweithlu iechyd a gofal presennol. Nid yw prosiectau tymor byr mewn ambell fan yn ddigonol. Mae'n amser am strategaeth genedlaethol i godi sgiliau Cymraeg gweithwyr yn y sector iechyd a gofal, wedi'i thargedu'n arbennig ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio mewn meysydd a phroffesiynau blaenoriaeth o safbwynt darparu gwasanaethau Cymraeg. Yn hyn o beth mae cam gweithredu 24 y Strategaeth yn nodi'r bwriad i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar draws grwpiau proffesiynol a galwedigaethol. Dylai datblygu sgiliau yn y Gymraeg fod yn rhan amlwg o'r strategaeth hon pan fydd yn cael ei llunio.

O safbwynt Datblygiad Proffesiynol Parhaus dylid tynnu sylw at un o ganfyddiadau gwerthusiad *Mwy na geiriau sef* bod llawer 'o'r prif rwystrau i weithredu gwasanaethau Cymraeg yn digwydd ar lefel cyfarwyddwyr gweithredol neu reolwyr, y cyfeirir atynt yn aml gan randdeiliaid fel yr 'haen ganol' mewn sefydliadau' (3.10). Dylid ystyried felly pa hyfforddiant a roddir felly i reolwyr o safbwynt cynllunio'r gweithlu a phlethu hynny â'r bwriad yng ngham gweithredu 30 y Strategaeth i 'datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol'.

Mae cam gweithredu 8 y Strategaeth yn nodi'r bwriad i 'weithredu dull recriwtio dwyieithog sy'n seiliedig ar werthoedd modern ar gyfer yr holl staff iechyd a gofal cymdeithasol'..... er mwyn sicrhau dull symlach, cyflym, effeithlon, llyfn, hygyrch a chynhwysol o recriwtio a phrofiad ardderchog i weithwyr newydd.' Fodd bynnag rydym yn ymwybodol o bryderon ymysg nifer o gyrff proffesiynol a cholegau brenhinol sy'n cynrychioli proffesiynau llai (megis therapi galwedigaethol, therapi iaith a lleferydd, ffisiotherapi ayb.) am y dull newydd o recriwtio o gyrsiau addysg yng Nghymru (a adwaenir yn Saesneg fel 'streamlining'). Amcan clodwiw y dull newydd o recriwtio yw sicrhau y bydd myfyrwyr sy'n derbyn bwrsariaeth y GIG er mwyn astudio yng Nghymru yn ymgymryd â swyddi yng Nghymru am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl graddio. Y pryder yw bod y prinder y cyrsiau ac felly'r llefydd mewn sawl proffeswn yn golygu nad oes digon o staff addas ar gyfer y swyddi a hysbyseb, a bod myfyrwyr o Gymru a fyddai wedi dymuno astudio yng Nghymru ond wedi methu â gwneud hynny am amryfal resymau (lleoliad y ddarpariaeth, eu hamgylchiadau personol) yn cael eu hallgau o'r cyfleoedd hyn i ymgeisio am swyddi a thrwy hynny ddim yn dychwelyd i weithio yn y

GIG yng Nghymru. Yn eu plith mae siaradwyr Cymraeg y mae dirfawr angen eu denu yn ôl i weithio yng Nghymru. Rydym yn awyddus i sicrhau y bydd y broblem hon yn cael ei datrys ar fyrder mewn partneriaeth â'r colegau brenhinol a'r cyrff proffesiynol. Mae'n bryder yn ogystal, a fydd modd i fyrddau iechyd recriwtio gweithwyr yn unol â chanfyddiad eu hasesiadau o ofynion ieithyddol swyddi newydd sy'n cael eu hysbysebu, sy'n ofynnol iddynt ei wneud yn sgil safonau'r Gymraeg (gweler 2 uchod).

4. Y mecanweithiau, y dangosyddion a'r data a ddefnyddir i fesur cynnydd o ran gweithredu strategaeth y gweithlu a gwerthuso ei heffeithiolrwydd.

Credwn fod sicrhau gwell data am y gweithlu yn un o elfennau pwysicaf y Strategaeth o safbwynt cynllunio i gynyddu gallu'r gweithlu iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Heb fod â data gwell am sgiliau'r gweithlu a'r bylchau yn y sgiliau hynny mewn gwahanol broffesiynau, yn ogystal â data am yr angen am wasanaethau Cymraeg mae'n anodd iawn cynllunio a gosod amcanion ar gyfer gwella'r sefyllfa. O ganlyniad bydd yn amhosibl mesur cynnydd y strategaeth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd.

Canfu'r gwerthusiad diweddar o *Mwy na geiriau* fod diffygion mewn data yn llesteirio darparu gwasanaethau Cymraeg, 'Mae'r ffaith bod data anghyson a chyfyngedig ar gael am anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethu a gallu'r gweithlu yn y Gymraeg wedi gosod cyfyngiadau pellach ar y graddau y gellir cynllunio a gweithredu gwasanaethau Cymraeg. Gwelir diffyg systemau digidol sy'n gydnaws â dwyieithrwydd hefyd, sy'n cyfyngu ar y graddau y gellir rhannu unrhyw ddata sy'n ymwneud â'r Gymraeg neu a gofnodir yn Gymraeg o fewn a rhwng gwasanaethau a lleoliadau' (12.13). Mae'r gwerthusiad yn argymhell y dylai *Mwy na geiriau* yn y dyfodol 'roi pwyslais ar ei rôl yn arwain y sector i gasglu data cyson yn ymwneud ag anghenion Cymraeg defnyddwyr gwasanaethau a defnyddio'r data hyn i fynd i'r afael â phrinder sgiliau Cymraeg. Gallai'r sector hefyd elwa o gymorth pellach yn ymwneud â sut y gellid defnyddio data a gesglir am gleifion a'r gweithlu i gynllunio'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau - a chanllawiau er mwyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith' (argymhelliad 8). Mae Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal yn cynnwys camau gweithredu penodol allasai gyfrannu at wella'r sefyllfa hon gan gynnwys 'Creu canolfan ragoriaeth ar gyfer gwybodaeth am y gweithlu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru' ac yn benodol o safbwynt y Gymraeg (Cam gweithredu 28) a 'Datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol' (Cam gweithredu 30).

Gwyddom fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain ar ddatblygu ymagwedd fwy strategol⁷ at ddata gofal cymdeithasol mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ac rydym wedi cyfrannu at eu gwaith yn hynny o beth. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi'i nodi eisoes ac fel sy'n cael ei ategu gan ganfyddiadau gwerthusiad *Mwy na geiriau* mae angen casglu data llawer mwy manwl am sgiliau iaith y gweithlu er mwyn gallu cynllunio addysg a hyfforddiant y gweithlu presennol ac un y dyfodol. Rhaid wrth gynnlluniau i fynd ati i wneud hyn ar fyrder.

5. A yw'r adnoddau ariannol ac adnoddau eraill a ddyrennir i weithredu'r strategaeth yn ddigonol.

⁷ [Ymagwedd strategol at ddata | Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

Nid ydym yn gwybod faint o adnoddau a ddyrannwyd i weithredu'r Strategaeth felly nid oes modd inni wneud sylw ar y mater hwn.

6. I ba raddau y mae'r strategaeth a'r modd y caiff ei gweithredu yn gynhwysol, yn adlewyrchu anghenion/cyfraniad y gweithlu cyfan—er enghraifft, ar sail proffesiwn, cam gyrfa neu nodweddion gwarchoddedig—a hefyd a yw'n ystyried rôl gofalwyr a gwirfoddolwyr di-dâl.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y Strategaeth yn cynnwys camau penodol i ddatblygu'r gweithlu i fedru darparu gofal yn y Gymraeg a bod yr angen hwn yn treiddio trwy'r Strategaeth. Fodd bynnag, fel rydym wedi ei nodi eisoes credwn fod angen datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer gwella sgiliau Cymraeg pob gweithiwr yn y sector iechyd a gofal. Yn rhan o hynny mae angen cynlluniau manwl a phenodol ar gyfer rhai sectorau/proffesiynau blaenoriaeth ar fyrder; mae'r rhain yn cynnwys proffesiynau sy'n gweithio gyda phobl hŷn, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl â dementia, a phlant a phobl ifanc. Yn hyn o beth, rydym yn edrych ymlaen at weld y cynllun gweithredu ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl yng Nghymru sy'n cael ei lunio gan AaGIC a GCC ar hyn o bryd.

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn o gymorth ichi yn eich sesiwn graffu. Er bod sawl cam cadarnhaol wedi'u cymryd i gynyddu sgiliau iaith y gweithlu dros y cyfnod diwethaf, nid yw'n eglur i ni ar hyn o bryd sut yn union y bydd Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal yn cael ei gweithredu o safbwynt y Gymraeg na sut caiff llifoedd gwaith y Strategaeth eu hariannu. Felly croesawn ymchwiliad y Pwyllgor a buasem yn falch o gyfrannu tystiolaeth at sesiynau cyffelyb yn y dyfodol ar weithrediad y Strategaeth hollbwysig hon ac ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Yr eiddoch yn gywir,



Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg